**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (Y FENNI, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn y Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 14 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Union Road, y Fenni. Sicrheir mynediad i fangreoedd ar hyd y darn a fydd ar gau.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A465 tua'r gorllewin i Gyffordd Llan-ffwyst ac ar yr A4143 tua'r gogledd i Gylchfan Union Road: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 13 Awst 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 13 – 15 Awst 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn dechrau unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) and cyclists from proceeding on the length of the A40 trunk road that extends from a point 40 metres north of the centre-point of Hardwick Roundabout to a point 14 metres east of the centre-point of Union Road Roundabout, Abergavenny. Access will be maintained to premises along the length of the closure.

The alternative route for northbound traffic is via the westbound A465 to Llanfoist Junction and northbound A4143 to Union Road Roundabout: vice versa for southbound traffic.

The Order comes into force on 13 August 2024. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 13 – 15 August 2024, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government